



**FFORDD WELL I GYMRO:
DATBLYGU EIN HECONOMI AR SYLFAEN BBACH**

Maniffesto Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru 2016–21



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

“Ers ein sefydlu ym 1974, mae Ffederasiwn Busnesau Bach wedi tyfu i fod yn brif sefydliad busnes y DU.

Ein nod yw creu'r amgylchedd gorau ar gyfer busnesau er mwyn iddynt sefydlu a ffynnu. Bydd ein llwyddiant yn sbarduno'r economi ac yn creu swyddi.

Ein haelodau sy'n ein harwain, fel bod modd i ni amddiffyn mewn modd awdurdodol, a hyrwyddo, buddiannau dros 10,000 o bobl hunangyflogedig a pherchenogion cwmnïau bach yng Nghymru.

A ninnau'n falch o'n hannibyniaeth, rydym yn sicrhau bod pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel o Lywodraeth yn clywed llais y busnesau bach - o'r cyngor lleol yr holl ffordd i Frwsel. ”

DIOLCHIADAU

Ni fyddai'r maniffesto hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth academyddion ac ymchwilwyr blaenllaw yng Nghymru a'r DU. Dymunwn ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniad:

Yr Athro Karel Williams (Prifysgol Manceinion)

Yr Athro Sukhdev Johal (Prifysgol y Frenhines Mary, Llundain)

Yr Athro Julie Froud (Prifysgol Manceinion)

Dr Lucy Brill (Prifysgol Manceinion)

Yr Athro Calvin Jones (Ysgol Fusnes Caerdydd)

Yr Athro David Pickernell (Prifysgol De Cymru)

Yr Athro David Brooksbank (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

Yr Athro Nick Clifton (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

Yr Athro Stuart Cole (Prifysgol De Cymru)

Dr Jane Bryan (Ysgol Fusnes Caerdydd)

Dr Mark Lang

Gerald Holtham

Josh Miles

CYNNWYS

Rhagair

tudalen 1

Economi well i Gymru

tudalen 3



Economiâu lleol gwell

tudalen 7



Bargen well i BBACh

tudalen 10



Trethu Gwell

tudalen 13



Rheoleiddio gwell

tudalen 16



Trafnidiaeth well

tudalen 19



Goblygiadau Cyllidebol

tudalen 22





**GALLWN GREU ECONOMI
WELL YNG NGHYMURU**

RHAGAIR

Mae'r maniffesto hwn yn nodi'r hyn rydym ni yn Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn awyddus i'w weld gan Lywodraeth nesaf Cymru. Fel mae'r teitl Ffordd Well i Gymru yn ei awgrymu, rydym o'r farn fod yna gamau cadarnhaol y gellid, ac y dylid, eu cymryd i wneud Cymru'n well lle ar gyfer busnes.

Rydym yn galw ar y llywodraeth nesaf i roi pwyslais o'r newydd ar ein heconomi ni yng Nghymru. Economi yw hon a sefydlwyd ar seiliau rhyw 200,000 o fusnesau bach – busnesau sydd wedi magu gwreiddiau ym mhob cymuned a phob rhan o Gymru.

Os bydd y llywodraeth nesaf yn mabwysiadu'r camau a nodir yn y maniffesto hwn, credwn yn gryf y gall Cymru fod yn well lle ar gyfer busnes; yn fan sy'n cynnig gwell cyfle i sefydlu a thyfu busnes.

Dim ond trwy gefnogi ein busnesau bach y bydd gennym y cyfle gorau i dyfu ein heconomi, ac o gyflawni'r math o Mittelstand a geir yn yr Almaen, sef cwmnïau hirsefydlog, cynhenid, canolig eu maint, y mae cymaint o angen amdanynt yng Nghymru.

Yn union fel y garddwyr gorau, mae angen tyfu ein heconomi o'r ddaear i fyny, gan feithrin yr hadau a'r coed ifanc sydd gennym eisoes, yn hytrach na phrynu planhigion mawr drud nad oes unrhyw sicrwydd y byddant yn gwreiddio'n gadarn.

Os gallwn helpu ein busnesau sefydledig i ffynnu, yna gallwn greu economi well yng Nghymru – un sy'n darparu cyfleoedd am swyddi gwell a chyflogau gwell i'n pobl, ac sy'n rhoi mwy o help i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus rydym ni fel cenedl yn eu gwerthfawrogi.

Dylid datgan yn glir nad rhestr o ddymuniadau'n unig yw'r maniffesto hwn. Yn hytrach, mae'n ganlyniad sawl blwyddyn o waith, ac fe'i cefnogir gan ymchwil eang a wnaed gan rai o brif academyddion busnes Cymru a thros y DU.

Nid yw'r hyn rydym yn ei gynnig yn fwled hud nac yn feddyginiaeth wyrthiol fydd yn datrys problemau economaidd Cymru dros nos. Bydd yr hyn rydym ni'n ei gynnig yn cymryd amser i'w gyflawni.

Fodd bynnag, rydym yn gryf o'r farn fod y polisiau yn y ddogfen hon yn darparu llwybr economaidd gwell i ni – a ffordd well i Gymru.

Janet Jones
Cadeirydd Polisi Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru



**ECONOMI WELL
I GYMRU**

Ers peth amser bellach, bu aelodau Ffederasiwn y Busnesau Bach yn pryderu nad yw'r polisi economaidd yng Nghymru yn adlewyrchu anghenion eu busnesau eu hunain a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gan gadw hynny mewn cof, gofynnodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru i'r Athro Karel Williams a'i dîm yn yng Nghanolfan Ymchwil Newid Diwylliannol-Gymdeithasol (CRESC) edrych ar yr economi gyfan yng Nghymru, a chynnig safbwynt ffres i ni.

Mae adroddiad CRESC What Wales Could Be yn adolygu llawer o'r farn sefydledig o safbwynt ein heconomi ni. Mae'n cwestiynu 'gwirioneddau' a dderbyniwyd ers cryn amser am Gymru a pholisi economaidd Cymru, ac yn cynnig gweledigaeth ar gyfer sut y gallai pethau fod yn wahanol.

Mae'r adroddiad yn cyd-fynd â'r Maniffesto hwn gan roi sail ar gyfer argymhellion polisi allweddol. Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, mae'n ein helpu i symud tuag at What Wales Could Be.

Mae tîm CRESC yn dadlau'n gryf o blaid newid pwyslais tuag at gael 'cwmnïau sefydledig' fel rhan o economi gadarn yng Nghymru. Mae'r 'cwmnïau sefydliedig'

hynny'n perthyn yn fras i ddau gategori. Y categori cyntaf yw cwmnïau BBaCh sydd wedi eu gwreiddio yn eu hardaloedd o ganlyniad i ffactorau megis perchenogaeth leol neu weithlu lleol sy'n meddu ar sgiliau arbennig – gweithlu y mae eu gwybodaeth yn benodol iawn ac nad yw'n rhwydd eu defnyddio na'u trosglwyddo i unrhyw le arall. Mae'r ail gategori'n cynnwys sefydliadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, sy'n aml yn rhai mawr. Mae'r rhain yn cynnig 'elfennau sylfaenol' – nwyddau a gwasanaethau y mae eu hangen ar bob cymuned, megis gwasanaethau cyfleustodau, ysgolion, gofal iechyd, trafnidiaeth a bancio manwerthu. Mae angen i gwmnïau o'r fath fod yn lleol er mwyn cyrraedd a bodloni'r galw lleol.

Edrychodd CRESC ar economi Cymru fel ecosystem; roedd y dull hwn yn eu galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth sydd i'w gael ymhlith busnesau Cymru, a sut maent yn rhyngweithio gyda'u hamgylchedd. Edrychwyd ar sut y gallai Cymru ddatblygu ei chyflenwad o gwmnïau sefydliedig a newid ymddygiad fel bod modd datblygu gallu diwydiannol a chyfrifoldeb cymdeithasol fel ei gilydd.

MAE DADANSODDIAD YR ADRODDIAD YN PWYSLEISIO'R CANLYNOL:

- Yr angen i herio'r dull cyfredol o feddwl a'r uniongrededd presennol er mwyn ailasesu'r hyn rydym yn ei werthfawrogi a'i fesur yng nghyd-destun ein heconomi. Tanlinellir yr anawsterau hysbys o ran culhau'r bwlch gwerth ychwanegol gros, ac mae'r adroddiad yn galw am 'ddangosfwrdd' o fesurau i asesu sefyllfa a datblygiad economaidd Cymru.
- Diffyg Mittelstand datblygedig fel a geir yn yr Almaen, sef cwmnïau hirsefydledig, canolig eu maint, yng Nghymru. Cymharol ychydig o gwmnïau canolig o ran maint sydd yng Nghymru, a'r rheiny wedi eu gwasgu rhwng llu o ficrofusnesau – sy'n cyflogi swm sylweddol o'r gweithlu – a nifer o fusnesau mawr.
- Yr angen am well cydbwysedd rhwng cefnogi cwmnïau sefydliedig a denu cwmnïau symudol sy'n creu penawdau newyddion, a ddaw â nifer sylweddol o swyddi yn eu sgil, ond sy'n aml heb

wreiddiau dyfnach yn y cymunedau lle cânt eu lleoli, ac sy'n dueddol o symud neu gau pan fo amodau'n newid.

- Rhybudd nad yw mwy o arian, a hwnnw'n rhatach, yn ateb llwyr i'r broblem yn achos busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y galw am fenthyciadau aros yn isel nes bod gan ragor o fusnesau sicrwydd yn y gadwyn gyflenwi, ac mae hynny'n dibynnu ar gael cwmnïau mawr i ymddwyn mewn modd cyfrifol.

MAE ARGYMHELLION YR ADRODDIAD AR GYFER BUSNES MWY CYFRIFOL YN CYNNWYS Y CANLYNOL:

- Diwygio'r amodau busnes sydd ar hyn o bryd yn annog corddi perchenogaeth BBaCh. Mae'r polisiau presennol (yn anfwriadol) yn annog perchenogion busnesau bach a chanolig i werthu eu busnes yn gymharol gynnar. Mae'r adroddiad yn argymhell cymelliadau ariannol newydd i atal corddi perchenogaeth a gadael yn gynnar heb fod angen.

- Defnyddio dull newydd o gaffael cysylltiedig, gan ddefnyddio'r galw mawr yn y sector cyhoeddus i ddatblygu gallu cadarn yng Nghymru. Mae'r targedau crynswth cyfredol ar gyfer caffael yn dibynnu'n rhy drwm ar fesuriadau cod post, ac yn hepgor defnydd y sector cyhoeddus o gyflenwyr allanol mewn meysydd megis Technoleg Gwybodaeth a gwasanaethau cymorth.
- Dylai llywodraethau'r dyfodol yng Nghymru gynyddu'r hyn a ddisgwylir yn gymdeithasol gan bob busnes mawr sefydledig, gan wneud hynny mewn dulliau perthnasol. Er enghraifft, sicrhau nad yw'r archfarchnadoedd mawr yn datrys eu problemau eu hunain ar draul proseswyr a chynhyrchwyr yng Nghymru sydd ag angen prisiau teg yn ogystal â marchnad ledled y DU gyfan ar gyfer cynhyrchion cig a llaeth.
- Cynnal dadansoddiad manwl o'r diwydiant i nodi dulliau newydd o ysgogi newid fel bod modd i lywodraethau Cymru yn y dyfodol wneud mwy na dim ond ychwanegu hyfforddiant ac isadeiledd trafniadaeth. Mewn gofal

preswyl i oedolion, er enghraifft, mae cyfle i ddefnyddio benthyciadau cyhoeddus rhad i adeiladu cartrefi i'w rhedeg gan gwmnïau bach a chanddynt gostau cyfalaf isel, a fyddai'n eu galluogi i dalu cyflogau uwch.

Mae adroddiad annibynnol CRESC yn codi llawer o gwestiynau ac yn ein herio ni i gyd i feddwl mewn ffordd wahanol. Mae'n ein hannog i feddwl am economi Cymru fel ecosystem, ac yn awgrymu sut y gallai economi Cymru roi gwell gwasanaeth i'n cymunedau, a'r busnesau sydd wedi magu gwreiddiau ynddynt, trwy ymyraethau arloesol.

Mae'r adroddiad yn cynnig rhywbeth i gnoi cil drosto, ac yn sbarduno rhagor o ymchwil a thrafod ymhlith sefydliadau eraill a'r gymdeithas sifil yn fwy eang ynglŷn â'r hyn y gallai Cymru fod.

O ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion penodol, yr hyn sy'n dilyn yw camau ymarferol y gellid eu cymryd i ddarparu ffordd well i Gymru.



ECONOMIAU

LLEOL GWELL

Byth ers creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r naill lywodraeth ar ôl y llall yng Nghymru wedi canolbwyntio ar ddenu buddsoddiad o'r tu allan gan gwmnïau byd-eang ar draul meithrin y busnesau sydd yma eisoes.

Er bod buddsoddiad uniongyrchol o dramor yn bwysig i gefnogi cyflogaeth, mae iddo anfanteision difrifol gan fod buddsoddwyr o dramor yn cynnal gweithgareddau gwerth-uchel mewn mannau eraill ac wedi eu hangori i raddau llai yn y gymuned na chwmnïau brodorol. O ganlyniad, mae'n bosibl na fyddant fyth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drawsnewid economi Cymru.

Mae dibynnu ar gyfalaf allanol ac ar gyllid grant y DU a'r UE hefyd wedi creu sefyllfa lle mae swyddogaeth Llywodraeth Cymru bellach yn un fwy gweinyddol er mwyn dyrannu'r arian sy'n dod i mewn yn hytrach na datblygu, profi a gweithredu dulliau radicalaidd o ddatblygu economïau lleol.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw am ddull economaidd newydd sy'n adeiladu ar y sylfaen o fusnesau bach a chanolig ym mhob rhan o Gymru, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar economïau lle – gan ganiatáu dulliau mwy lleol o ddatblygu economaidd.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Datganoli cyfrifoldeb statudol am ddatblygiad ac adfywiad economaidd lleol, yn ogystal â'r holl staff a'r cyllidebau perthnasol o Lywodraeth

Cymru, i'r awdurdodau lleol arfaethedig, mwy o faint.

- Treialu datblygu dull o fesur Cynnyrch Gwladol Gros ar gyfer Cymru ac ardaloedd awdurdodau lleol. Byddai'r dull o fesur yn gwahaniaethu rhwng gwerth ychwanegol a grëwyd yng Nghymru, ac a ddychwelwyd i wlad arall, a gwerth ychwanegol a grëwyd yng Nghymru ac a arhosodd yng Nghymru.
- Ystyried creu partneriaethau datblygu lleol, wedi eu modelu ar fyrddau gwasanaethau lleol, gan adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes lle bo hynny'n bosibl. Byddai partneriaethau o'r fath yn cael eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru ac yn galw ar Weinyddiaeth Busnesau Bach Cymru am gymorth gwybodaeth. Byddent yn caniatáu i fusnesau sy'n eiddo i berchenogion lleol, y trydydd sector ac eraill i arwain y gwaith o ddatblygu polisi datblygiad economaidd lleol pwrpasol.
- Sicrhau, fel egwyddor, bod cyllid a ddarperir gan Gyllid Cymru neu'r Banc Datblygu Cymru arfaethedig yn cael ei dargedu i gael ei ddefnyddio ar gyfer endidau a berchenogir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu i ffafrio datblygiad gan endidau a berchenogir yn lleol, gyda'r disgwyliad fod sefydliadau o'r fath yn cyflawni lefel uwch, ar gyfartaledd, yng nghyd-destun yr effaith gymdeithasol, economaidd a datblygiadol.



AMSERLEN

0 FEWN 100 DIWRNOD

- Pennu cynlluniau fydd yn rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol dros ddatblygiad economaidd.

0 FEWN BLWYDDYN

- Treialu dull o fesur Cynnyrch Gwladol Gros ar lefel Cymru ac ar lefel awdurdodau lleol.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu i ffafrio endidau a berchenogir yn lleol.

0 FEWN 3 BLYNEDD

- Sicrhau, fel egwyddor, bod cyllid a ddarperir gan Gyllid Cymru neu Fanc Datblygu yn cael ei dargedu at fusnesau a berchenogir yn lleol.
- Dylai dyletswydd statudol dros ddatblygiad economaidd fod wedi ei gyflwyno ar gyfer awdurdodau lleol.

0 FEWN 5 MLYNEDD

- Dylid casglu data am Gynnyrch Gwladol Gros yn rheolaidd ar lefel Llywodraeth Cymru ac ar lefel awdurdodau lleol.



BARGEN WELL I BBACH

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn pryderu y bu diffyg pwyslais, dros y blynyddoedd diwethaf, ar BBaCh fel sylfaen i economi Cymru. Mae'r gallu i gael at gyllid priodol yn parhau i fod yn broblem, a gall ansawdd cymorth busnes amrywio'n fawr. Mae bylchau hefyd yn y cymorth i fusnesau bach y mae'r sector cyhoeddus yn caffael ganddynt, a diffyg eiriolaeth i fusnesau bach o fewn Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth sifil.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw am fargen well i BBaCh trwy greu strwythur llywodraethu trosfwaol ar gyfer polisi busnesau bach yng Nghymru ar ffurf Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru.

Rydym o'r farn y byddai Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru yn ateb gwell i feithrin twf mewn BBaCh cynhenid, gan fod o fudd i'r economi ehangach a chymunedau ym mhob rhan o Gymru.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Sefydlu Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru i gefnogi anghenion busnesau sy'n cyflogi rhwng 0 a 250 o weithwyr.

- Rhoi i Weinyddiaeth Busnesau Bach Cymru gyfrifoldeb polisi cyffredinol dros:

1. Cyllid BBaCh (Cyllid Cymru/
Banc Datblygu)
2. Hyfforddiant a Chymorth (Busnes Cymru)
3. Caffael (y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol)
4. Eiriolaeth (swyddogaeth benodol i Gyfarwyddwr Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru)
5. Ymchwil (canolfan ymchwil BBaCh).

- Sicrhau bod strategaeth Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru yn rhoi pwyslais ar oruchwylio'r gwaith o ddarparu dull unedig o gefnogi BBaCh, gan ddefnyddio arbenigedd lleol o ystod o ffynonellau (gan gynnwys awdurdodau lleol), a'r cyfan yn cael ei ategu gan ymchwil o ansawdd uchel.
- Sicrhau darpariaeth leol, o fewn fframwaith rhanbarthol, gyda sefydliadau ac arbenigwyr busnes ar y lefel leol mewn awdurdodau lleol a phrifysgolion yn darparu'r polisiau.
- Gwarantu bod gan Weinyddiaeth Busnesau Bach Cymru strwythur llywodraethu hyd braich, ei bod yn cael ei harchwilio'n drwyadl, a'i bod yn gyfrifol i un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ac yn atebol i bwyllgor yn y Senedd.



AMSERLEN

0 FEWN 100 DIWRNOD

- Cyflwyno deddfwriaeth i greu Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru, gan nodi'r strategaeth, y ddarpariaeth a'r trefniadau llywodraethu cyffredinol.

0 FEWN BLWYDDYN

- Creu Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru a chanddi aelodaeth bwrdd craidd a strwythur rhanbarthol.
- Bod wedi comisiynu canolfan ymchwil BBaCh annibynnol a chanddi'r cylch gwaith i greu / ddadansoddi data sy'n angenrheidiol i gefnogi ac asesu gweithgareddau Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru.

0 FEWN 3 BLYNEDD

- Bod wedi sefydlu Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru, a honno'n gwbl weithredol, gan dynnu ynghyd y swyddogaethau cyllid, hyfforddiant a chymorth, caffael ac eiriolaeth.
- Sefydlu canolfan ymchwil BBaCh, a honno'n gwbl weithredol, sy'n cynhyrchu'r data a'r dadansoddiadau angenrheidiol, a hynny'n uniongyrchol ac mewn cysylltiad ag asiantaethau ystadegol y llywodraeth.

0 FEWN 5 MLYNEDD

- Bod Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru wedi dangos ei bod wedi cael effaith fuddiol y gellid ei mesur (a'r dulliau mesur hynny wedi eu cynllunio, a'r ymchwil wedi ei chyflawni, gan Ganolfan Ymchwil BBaCh) ar gymorth busnes, dulliau darparu a gweithgarwch entrepreneuriaidd.



TRETHU
GWELL

Yn dilyn newidiadau i'r setliad datganoli yn ystod y blynyddoedd diweddar, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rheolaeth lawn o amrywiaeth o drethi, gan gynnwys Treth Dir y Doll Stamp, Treth Dirlenwi ac Ardrethi Annomestig. Mae'r olaf o'r rhain – Ardrethi Busnes fel y gelwir y dreth weithiau – yn achosi pryder sylweddol i fusnesau bach yma yng Nghymru. Mae'r system gyfredol yng Nghymru yn rhoi baich anghymesur ar fusnesau bach a chanddynt eu safleoedd eu hunain, ac eto mae'n fwy ffafriol i'r cwmnïau mwyaf un. Mae ein haelodau'n dymuno gweld yr ardrethi busnes yn cael eu hailwampio'n llwyr er mwyn gostwng y baich ar gwmnïau bach, cefnogi'r stryd fawr a meithrin entrepreneuriaeth ym mhob cymuned yng Nghymru.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Rhannu'r lluosydd ardrethi busnes unffurf yn unol â'r hollt rhwng lluosyddion bach a mawr sy'n gweithredu yn Lloegr.
- Rhoi Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar yr holl safleoedd busnes a chanddynt werth ardrethol o hyd at £18,000, yn unol â'r system sy'n gweithredu yn yr Alban.
- Defnyddio tapr llinell safonol i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach rhwng £10,001 a £18,000, yn unol â'r cynllun a weithredir yn yr Alban.
- Hepgor cynlluniau rhyddhad ad hoc megis Ar Agor am Fusnes a rhyddhad Datblygiadau Newydd, ac ail-ganolbwyntio'r arian i bwrpas

Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach.

- Cynnal adolygiad o ryddhad caledi yng Nghymru, gan archwilio'r meini prawf cymhwysedd presennol a gweld sut y gellid gwella'r dull o hyrwyddo'r cymorth hwn i helpu'r busnesau hynny sy'n dioddef caledi gwirioneddol.
- Symud at ailbrisio eiddo'n amlach at ddibenion ardrethi busnes.
- Mynegeio'r lluosyddion ardrethi busnes i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu.
- Cytuno ar safbwynt ynghylch cadw ardrethi busnes yn lleol yn ystod 100 diwrnod cyntaf y llywodraeth.
- Cyfarwyddo Awdurdod Cyllid Cymru i gyflwyno dull safonol o gasglu ardrethi busnes ledled Cymru i symleiddio'r dull o weinyddu'r dreth.
- Gwarantu y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei sefydlu mewn modd sy'n ei wneud yn gyfrifol i un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ac yn atebol i bwyllgor yn y Senedd.
- Ymrwymo i adolygiad llawn o'r system ardrethi busnes yng Nghymru, gyda'r bwriad o osod system newydd i ddisodli'r un bresennol.
- Ceisio prisio tir ac eiddo yng Nghymru ar wahân, er mwyn gallu cynnal archwiliad ehangach o'r Dreth Gwerth Tir fel un o'r opsiynau i gymryd lle'r system bresennol.



AMSERLEN

0 FEWN 100 DIWRNOD

- Ymrwymo i adolygiad llawn o'r system ardrethi busnes yng Nghymru gyda'r bwriad o gael system newydd i ddisodli'r un bresennol.
- Cytuno ar safbwynt ynghylch cadw ardrethi busnes yn lleol.

0 FEWN BLWYDDYN

- Hollti'r lluosydd ardrethi busnes unffurf yn unol â'r hollt rhwng lluosyddion bach a mawr sy'n gweithredu yn Lloegr.
- Rhoi Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar yr holl safleoedd busnes a chanddynt werth ardrethol o hyd at £18,000, yn unol â'r system sy'n gweithredu yn yr Alban, a defnyddio tapr llinell safonol i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach rhwng £10,001 a £18,000, yn unol â'r cynllun a weithredir yn yr Alban.
- Cynnal adolygiad o ryddhad caledi yng Nghymru.
- Mynegeo'r lluosyddion ardrethi busnes i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

0 FEWN 3 BLYNEDD

- Symud at ailbriso eiddo'n amlach at ddibenion ardrethi busnes.
- Ceisio prisio tir ac eiddo yng Nghymru ar wahân, er mwyn gallu cynnal archwiliad ehangach o'r Dreth Gwerth Tir fel un o'r opsiynau i gymryd lle'r system bresennol.

0 FEWN 5 MLYNEDD

- Cyhoeddi'r opsiwn a ffefrir ar gyfer system i ddisodli ardrethi busnes fel treth yng Nghymru.



RHEOLEIDDIO GWELL

Mae nifer o'r materion sy'n effeithio ar fusnesau bach yn deillio o ddeddfwriaeth eilaidd a rheoleiddio lleol. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn cydnabod bod lle i reoleiddio gweithgareddau busnes, yn enwedig mewn meysydd lle caiff rheoliadau eu creu er mwyn diogelu defnyddwyr neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni ddylai rheoliadau osod baich diangen ar fusnesau bach. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheoliadau'n cael eu creu yn unol ag egwyddorion sefydledig Rheoliadau Gwell – sy'n golygu y dylent fod yn gymesur ac yn eglur. Byddai hyn o fudd i fusnesau o ran cydymffurfio â'r rheoliadau, ac yn well i'r rheoleiddwyr eu hunain.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Nodi datganiad eglur o fwriad ar bolisi rheoleiddio, gan greu agenda Rheoliadau Gwell i Gymru i ddarparu newid cadarnhaol amlwg yn y modd y mae busnesau'n gweithredu o ddydd i ddydd.
- Sefydlu Grŵp Diwygio Rheoliadau ar gyfer Cymru i greu canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â busnesau, ac annog arfer gorau wrth greu a darparu rheoliadau. Mae angen i'r Grŵp Diwygio Rheoliadau dderbyn cefnogaeth gan dîm penodedig o weision sifil yng Nghymru.

- Sicrhau bod y Grŵp Diwygio Rheoliadau newydd yn gweithio gydag adran arweiniol Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Gwell er mwyn hysbysu'r gwaith o greu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Dylai'r broses hon fod wedi ei sefydlu ym mhob adran o Lywodraeth Cymru yn gynnar yn y gwaith o lunio polisiau.
- Mabwysiadu proses Asesu Ymarferoldeb a Gorfodi i sicrhau bod gan unrhyw reoliadau newydd siawns resymol o gyflawni'r amcanion a bennwyd.
- Sicrhau bod y Grŵp Diwygio Rheoliadau yn comisiynu gwaith i wella'r ddarpariaeth o reoliadau yng Nghymru.
- Rhoi sail statudol i God Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo).



AMSERLEN

0 FEWN 100 DIWRNOD

- Cyhoeddi datganiad eglur o fwriad ar bolisiâu rheoleiddio.

0 FEWN BLWYDDYN

- Sefydlu Grŵp Diwygio Rheoliadau ar gyfer Cymru.
- Mabwysiadu proses Asesu Ymarferoldeb a Gorfodi.

0 FEWN 3 BLYNEDD

- Rhoi sail statudol i God Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo).
- Sicrhau bod y Grŵp Diwygio Rheoleiddiol wedi ei sefydlu a'i roi ar waith, a'i fod wedi comisiynu gwaith i wella darpariaeth rheoliadau yng Nghymru.

0 FEWN 5 MLYNEDD

- Adolygu'r modd y mae'r Grŵp Diwygio Rheoliadau'n gweithredu i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaeth o arwain yr agenda Rheoliadau Gwell yng Nghymru.



**TRAFNIDIAETH
WELL**

Os yw Cymru i weithredu'n briodol fel endid economaidd, mae arnom angen system drafnidiaeth genedlaethol effeithiol; un sy'n sicrhau bod pobl a chynnyrch yn gallu cyrraedd y llefydd y mae angen iddynt fynd mewn da bryd. Mae cysylltiadau ffyrdd da yn bwysig, ond mae angen hefyd rhoi pwyslais cryf ar swyddogaeth trafndiaeth gyhoeddus os ydym yn mynd i liniaru problemau tagfeydd a geir mewn rhai rhannau o Gymru.

Er y derbynir yn gyffredinol fod angen trafndiaeth integredig, rydym o'r farn fod y dull cyfredol o ymdrin â pholisi trafndiaeth a chynllunio yn rhy dameidiog i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae'n bryd bellach i ni gael un corff i oruchwyllo trafndiaeth yng Nghymru, i sicrhau bod ein system drafnidiaeth yn cefnogi anghenion busnesau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a hynny yn y ffordd orau bosibl.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Creu corff newydd hyd braich – Trafndiaeth i Gymru – i oruchwyllo polisiau a darpariaeth trafndiaeth yng Nghymru. Byddai Trafndiaeth i Gymru yn atebol i un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ac i bwyllgor yn y Senedd.

- Rhoi cyfrifoldeb i Drafnidiaeth i Gymru dros faterion yn cynnwys:
 1. Creu Cynllun Buddsoddi mewn Trafndiaeth ar gyfer Cymru
 2. Rheoli masnachfrait rheilffyrdd ledled Cymru
 3. Rheoli gwasanaethau bysiau strategol ledled Cymru
 4. Goruchwyllo tocynnau ledled Cymru
 5. Goruchwyllo gwybodaeth a deunydd hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus ledled Cymru
 6. Goruchwyllo Trafndiaeth Ranbarthol
 7. Goruchwyllo rhwydwaith ffyrdd Cymru
 8. Hybu dulliau egniol o deithio.
- Sefydlu awdurdodau trafndiaeth ar y cyd ar lefel ranbarthol.
- Datblygu methodoleg newydd ar gyfer rhestru cynlluniau trafndiaeth yn eu trefn ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Trafndiaeth. Byddai'r fethodoleg hon yn cwmpasu'r holl fathau o fuddsoddiad mewn trafndiaeth gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, a byddai'n rhoi pwysoliad ychwanegol i brosiectau mewn ardaloedd gwledig ac i'r prosiectau hynny sy'n dod â buddion economaidd cynaliadwy yn eu sgil.
- Pwyso ar Lywodraeth y DU i ddatganoli rheoleiddio bysiau i Gymru.



AMSERLEN

0 FEWN 100 DIWRNOD

- Ymrwymo i sefydlu Trafnidiaeth i Gymru.
- Pwyso ar Lywodraeth y DU i ddatganoli rheoleiddio bysiau i Gymru.

0 FEWN BLWYDDYN

- Creu Trafnidiaeth i Gymru gyda'i strwythur a'i aelodaeth bwrdd craidd.
- Sefydlu awdurdodau trafndiaeth ar y cyd.
- Comisiynu datblygiad methodoleg o fuddsoddi mewn trafndiaeth newydd.

0 FEWN 3 BLYNEDD

- Bod wedi sefydlu Trafnidiaeth i Gymru sy'n gwbl weithredol, yn cwmpasu'r holl feysydd trafndiaeth y mae gan Lywodraeth Cymru awdurdod drostynt.
- Bod wedi mabwysiadu methodoleg newydd ar gyfer asesu buddsoddiad mewn cynlluniau trafndiaeth yng Nghymru.

0 FEWN 5 MLYNEDD

- Adolygu effeithiolrwydd Trafnidiaeth i Gymru a'i ddatblygiad o ran cynhyrchu system drafnidiaeth fwy integredig.



GOBLYGIADAU CYLLIDEBOL

ECONOMIAU LLEOL GWELL

Ni fyddai gwneud datblygu ac adfywio economaidd lleol yn statudol ar gyfer yr awdurdodau lleol ar ôl iddynt gael eu had-drefnu yn costio mwy fesul yr awdurdodau unedol presennol na'r Partneriaethau Economaidd Lleol yn Lloegr, sydd ar hyn o bryd yn derbyn £250,000 yr un. Byddai hyn yn cynhyrchu uchafswm cost o £5.5 miliwn y flwyddyn (a hyd at 110 o staff yn cael eu hailneilltuo o awdurdodau lleol a thimau sectorau).

Byddai eu gweithgareddau'n cael eu cefnogi gan yr adnoddau sydd ar gael gan Weinyddiaeth Busnesau Bach Cymru (e.e. ymchwil).

Byddai'r £5.5 miliwn hwn yn cael ei ail-neilltuo o'r gyllideb Sectorau (adnoddau a chyfalaf).

BARGEN WELL I BBACH

Mae mapio gweithgareddau arfaethedig Gweinyddiaeth Busnesau Bach Cymru, o'u cymharu â'r gweithgareddau presennol a gweithgareddau cymharol yn y meysydd ychwanegol a gynigir, yn awgrymu bod angen rhyw 730 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (llawer ohonynt eisoes yn cyflawni'r gweithgareddau hyn i Lywodraeth Cymru), a chost flynyddol heb fod yn fwy na £36 miliwn.

Byddai'r £36 miliwn hwn yn cael ei dynnu o ailddyrrannu amryw o'r cyllidebau cyfredol lle cyflawnir y mathau hyn o weithgareddau eisoes, gan gynnwys elfennau o gyllideb ystadegau Gwella'r Economi a'r Farchnad Waith, cyllideb y Rhaglenni Strategaeth, cyllideb "Gwerth Cymru", cyllideb "Academi Wales", Cyllideb Cyllid Cymru, a'r gyllideb Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Fusnes.

Byddai'r rhan fwyaf o'r £36 miliwn yn cael ei ailddyrrannu o gyllidebau'r Sectorau (adnoddau a chyfalaf).

TRETHU GWELL

Amcangyfrifir y bydd defnyddio system yr Alban o gael tapr rhyddhad rhwng £10,001 a £18,000 yn costio £47 miliwn yn fwy na'r system bresennol, yn ôl yr 'Adroddiad i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan y Panel Ardrethi Busnes' (2015).

Amcangyfrifir y bydd ail-bwysleisio adnoddau a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn y cynllun Agor am Fusnes a'r cynllun Datblygiadau Newydd yn golygu gostyngiad yn y costau o £1.75 miliwn y flwyddyn.

Yn ôl ffigurau a gyflwynwyd yn yr 'Adroddiad i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan y Panel Ardrethi Busnes' (2015), byddai'r gost o symud i system uwchraddio yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn £9

miliwn yn ystod 2016/17 (£20 miliwn yn 2017/18, a £35 miliwn yn 2018/19), gan roi cost flynyddol gyfartalog ar gyfer cynigion maniffesto Ffederasiwn y Busnesau Bach dros bum mlynedd Llywodraeth nesaf Cymru o £12.8 miliwn.

Yn ôl Adroddiad Ffederasiwn Eiddo Prydain (2014), gellid cael gostyngiad o 27.66% yn y gost o weinyddu Ardrethi Busnes trwy ddefnyddio cyfrifiaduron ac ailbrisiu blynyddol, a fyddai, yng Nghymru, yn cyfateb i amcangyfrif o £3.3 miliwn o arbedion ym mlwyddyn pedwar a phump, gan roi gostyngiad cost flynyddol gyfartalog o £1.32 miliwn.

Mae hyn yn rhoi cost gyfartalog o £56.73 miliwn, gyda chostau blynyddol na fyddant yn fwy na £60.55 miliwn (gan wneud tybiaethau am lithriant mewn amserlenni wrth weithredu polisiau ac ati).

Byddai'r £60.55 miliwn yn cael ei dynnu o ailddyrrannu elfennau o gyllideb y sectorau (adnoddau a chyfalaf), cyllideb y Gronfa Buddsoddi Strategol (Etifeddol) a'r gyllideb Adfywio Cartrefi a Lleoedd (adnoddau a chyfalaf) i adlewyrchu'r ailbwysleisio ehangach yng nghyd-destun y gweithgareddau a awgrymir yn y maniffesto.

RHEOLEIDDIO GWELL

Amcangyfrifir y byddai angen tua £0.779 miliwn i greu Grŵp Diwygio Rheoleiddio, a byddai angen 17 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Byddai'r £0.779 miliwn hwn yn cael ei dynnu o ailddyrrannu elfennau bychan (10%) o gyllidebau perthnasol yn ymwneud â chynllunio, sef y gyllideb Cynllunio a Rheoleiddio mewn Cyfoeth Naturiol, a Chefnogi Cydweithredu a Diwygio mewn Llywodraeth Leol.

TRAFNIDIAETH WELL

Wrth fapio Trafnidiaeth i Gymru o'i gymharu â'r sefydliad cyfredol sy'n cyfateb agosaf iddo (Transport Scotland) yn y meysydd cwmpas a gynigir, nodir ar sail pro rata sefydliad o ryw 230 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn, a chost gweithredu o £10.35 miliwn y flwyddyn. Byddai'r gost hon yn cynnwys yr elfennau ymchwil a gwmpasir o fewn y fethodoleg newydd a gynigir, a chostau blynyddol y gweithgareddau rheoli a rheoleiddio bysiau a rheilffyrdd a gynigir.

Amcangyfrifir y bydd costau cychwynnol sefydlu'r Awdurdodau Teithio ar y cyd, a chostau'r contract bysiau untro, yn £6.05 miliwn, gan roi cost flynyddol gyfartalog (dros bum mlynedd) o £1.21 miliwn.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm cost tybiedig o £11.56 miliwn, a fyddai'n cael ei dynnu o ailddyrrannu llai na 10% o'r gyllideb Teithio Cynaliadwy (adnoddau a chyfalaf).

GOBLYGIADAU CYLLIDEBOL CYFFREDINOL

Byddai'r cynigion a gynhwysir yn y maniffesto hwn yn costio llai na chyfanswm o £115 miliwn, gan gynnwys ailbwysleisio llai na 0.75% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn cyfateb i lai na 10% o gyllideb Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Er mai ar elfen Sectorau (adnoddau a chyfalaf) cyllideb Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y mae'r cynigion yn effeithio fwyaf, byddai hynny ond yn ailbwysleisio ychydig dros 50% o'r gyllideb yn y maes hwn, a byddai'r newidiadau i amcanion cefnogi'r polisi presennol o fudd i lawer o BBaCh.

Mae'r maniffesto, felly, wedi cael ei gostio'n llawn, a'r cyllidebau wedi eu nodi; y nod amlwg yw helpu i greu ffordd well i Gymru trwy ddatblygu ein heconomi ar sylfaen BBaCh¹.

Amcangyfrifwyd y costau a'r goblygiadau i gyllidebau gan yr Athro David Pickernell, Prifysgol De Cymru².

¹Mae'r goblygiadau i'r cyllidebau yn seiliedig ar y cyllidebau cyffredol. Er y gallai cyllidebau na chawsant eu diogelu gael eu gostwng yn gymesur yn ystod tymor y Cynulliad nesaf, credir y gellir parhau i weithredu'r polisiau arfaethedig. Gallai fod angen newid rheolau cyllidebol sy'n ymwneud â throsglwyddo rhwng cyllidebau cyfalaf ac adnoddau i gyflawni'r ailddyrannu arfaethedig ar gyllidebau.

²Cynhaliwyd y dadansoddiad gan ddefnyddio cymariaethau a gytunwyd gyda Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a meysydd cyllidebol a nodwyd gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru. Nid yw'r polisiau arfaethedig o reidwydd yn cynrychioli safbwyntiau'r Athro Pickernell na Phrifysgol De Cymru.

Mae'r casgliadau'n seiliedig ar ddealltwriaeth yr awdur o'r dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno ar yr adeg hon. Nid yw USW Commercial Services Ltd na Phrifysgol De Cymru yn cymryd, ac felly'n ymwrthod, unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu niwed a achosir gan gamgymeriadau neu hepgoriadau yn yr adroddiad hwn, pa un a yw'r camgymeriadau neu'r hepgoriadau o ganlyniad i esgeulustod, damwain neu achosion eraill.



Rhian Daniel and Helen Jenkins of Raspberry Cakery



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

Ffederasiwn y Busnesau Bach 2015

Rhif ffôn: 029 2074 7406

E-bost: wales.policy@fsb.org.uk

www.fsb.wales

@FSB_Wales

Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn o Wefan Ffederasiwn y Busnesau Bach yn www.fsb.org.uk/wales/publications

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, cadw mewn system adalw neu drosglwyddo unrhyw ran o'r adroddiad hwn ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, electronig, mecanyddol, ffotocopio, recordio neu fel arall, heb ganiatâd Ffederasiwn y Busnesau Bach ymlaen llaw.

Er bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod y ffeithiau a'r data sydd wedi eu cynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir, ni all Ffederasiwn y Busnesau Bach dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu hepgoriadau na'u canlyniadau.

Mae'r erthyglau sy'n ymddangos yn yr adroddiad wedi eu hysgrifennu mewn termau cyffredinol yn unig. Nid yw'n fwriad iddynt fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r materion a godir, ac ni ddylid dibynnu arnynt i unrhyw bwrsasau penodol. Dylai darllenwyr ofyn am gyngor proffesiynol priodol ynglyn â defnyddio'r materion a godir mewn unrhyw erthygl ar gyfer eu hamgylchiadau penodol hwy eu hunain.

Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2015